CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 29 TACHWEDD 2017

Y Maer, y Cyng Alun Lenny, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 29ain o Dachwedd 2017 am 7.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Phil Grice, Alun Lenny, Angharad Jones Leefe, Wyn Thomas, Barry Williams, Gareth John, Peter Hughes Griffiths, Emlyn Schiavone, Dr Ioan Matthews a Dr Matthew Thomas.

Agorwyd y cyfarfod gyda chyflwyniad gan Andrew Hardwick a Lynn Howells o Eiriol. Diolchodd Mr Hardwick i'r cyngor am eu cefnogaeth yn y blynyddoedd blaenorol.

294. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng. Miriam Moules (oherwydd salwch), Ken Lloyd (oherwydd salwch), Jeff Thomas (oherwydd ymrwymiad blaenorol), Dr Baba Gana (oherwydd ymrwymiad blaenorol) ac Arwel Lloyd (oherwydd gofal plant)

295. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem yr Agenda 10a fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir ac fel preswylydd o Picton Terrace. Hefyd eitem 8 ar yr Agenda fel Cyfarwyddwr Oriel Myrddin.

Datganodd y Cyng Wyn Thomas ddiddordeb yn eitem 8 ar yr Agenda fel Cyfarwyddwr Oriel Myrddin.

Datganodd y Cyng Emlyn Schiavone ddiddordeb yn eitem 8 ar yr Agenda fel ymddiriedolwr Dr Mz a Chanolfannau Teulu Caerfyrddin. Datganodd y Cyng. Schiavone ddiddordeb yn y cyflwyniad hefyd fel mentor yn Eiriol.

Datganodd y Cyng Phil Grice ddiddordeb yn eitem 8 ar yr Agenda fel ymddiriedolwr Dr Mz's.

Datganodd y Cyng Angharad Jones Leefe ddiddordeb yn eitem yr Agenda 10a fel preswylydd o Picton Terrace.

Datganodd y Cyng Parchg Defis ddiddordeb yn eitem 10b ar yr Agenda fel preswylydd yn yr ardal leol.

296. Cwestiynau

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

297. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017 fel rhai cywir.

298. Materion yn Codi

Ni chododd unrhyw faterion

299. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Barry Williams, eiliwyd gan y Cyng Phil Grice a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2017 fel rhai cywir.

300. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi -

Dim yn codi

301. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Gareth John, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2017 fel rhai cywir.

302. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi

Tudalen 69: 289 – Adolygu'r Warant Uniondeb 2018/19

Tudalen 69: 290 – Arolygiad Blynyddol y Cyflog Byw

Mynychodd Mr John Wilson a Mr Owen Phillips o Gyngor Sir Caerfyrddin y cyfarfod i roi rhagor o wybodaeth i'r Cyngor ar y 'Wal Wi-Fi' arfaethedig. Ar ôl trafodaeth hir fe gynigiwyd gan y Cyng Gareth John, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone, a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid cefnogi y 'Wal Wi-Fi' gyda chyfraniad ariannol.
Cynigwyd gan y Cyng Gareth John, eiliwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews a **CHYTUNWYD** gan bawb i dderbyn argymhellion y Pwyllgor Cyllid.

303. Adroddiad y Clerc

Ymgynghoriadau Statudol

(a) Cynllunio
W/36460 - Spilman Hotel, Heol Spilman, Caerfyrddin. SA33 5LW - Cefnogwyd

W/36433 & W/36481- 18 Teras Picton, Caerfyrddin. SA31 3BX - Dim gwrthwynebiad

W/36435 - 36 Parc Starling, Tre Ioan, Caerfyrddin. SA31 3HX - Dim gwrthwynebiad

W/36466 – Cyn - Pak a Snack, Y Clos Mawr, Caerfyrddin. SA31 1PN - Dim gwrthwynebiad

W/36467- 3 Teras y Tabernacl, Caerfyrddin. SA31 1DL - Dim sylw

Cynigiwyd yr ymatebion a restrwyd i'r ymgynghoriadau cynllunio statudol a nodir gan y Cyng Dr Matthew Thomas, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb.

b) Priffyrdd

Bwriad i wahardd aros ar unrhyw adeg, Heol Abergwili, Caerfyrddin – Cynigwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Angharad Jones Leefe a **CHYTUNWYD** gan bawb i gefnogi'r gwaharddiad.

Cau ffordd dros dro Heol Las, Porth Tywyll, Heol Awst, Heol Morley a Heol Mansel – Nodwyd.

Cau ffordd dros dro W4074, Castell Hywel, Trefechan – Nodwyd.

Cau ffordd dros dro – Heol San Pedr, Caerfyrdin – Nodwyd.

(c) Trwyddedu

Florentino's, 6-11 Jacksons Lane, Caerfyrddin - Cais i newid gosodiad mewnol yr adeilad – Dim gwrthwynebiad.

304. Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru – Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

NODWYD adroddiad y Clerc.

305. Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru – Cynllun Llywodraeth Leol Diwygiedig 2017

NODWYD adroddiad y Clerc.

306. Adolygiad o'r Sector Cyngor Cymuned a Thref

Dywedodd y Cyng Peter Hughes Griffiths y byddai'n mynychu'r cyfarfod ymgynghori ar 4 Rhagfyr 2017. Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid dyrannu amser yng nghyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y mater yn llawn.

NODWYD adroddiad y Clerc.

307. Adroddiad y Maer

NODWYD adroddiad y Maer.

308. Adroddiad gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

Dosbarthodd y Cyng Barry Williams adroddiad ar waith y Cyngor Iechyd Cymunedol.

NODWYD adroddiad y Cyng Barry Williams.

309. Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg

Heb ei gynnig.

310. Materion yn Codi

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15 yr hwyr.